Cyngor Sir Gâr

# Llety â Chymorth Sir Gâr

## Canllaw Cyflym i Bobl Ifanc

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

## Beth yw Llety â Chymorth?

Llety â Chymorth yw lle rydych chi'n byw fel lletywr yng nghartref rhywun. Mae byw fel lletywr yn golygu y bydd gennych allwedd drws ffrynt eich hun ac ystafell wely ar wahân. Byddwch yn rhannu'r gegin, yr ystafell ymolchi, yr ystafell fyw a'r peiriant golchi gyda'r darparwr Llety â Chymorth a'i deulu.

Bydd disgwyl i chi allu gwneud cryn dipyn ar eich pen eich hun i hybu eich annibyniaeth a datblygu eich sgiliau byw'n annibynnol.

Mae llety â chymorth yn darparu amgylchedd diogel, cefnogol lle gallwch ennill a gwella ymhellach rai o'r sgiliau ymarferol y bydd eu hangen arnoch pan fyddwch yn symud i'ch llety yn y dyfodol.

Byddwch yn ymarfer sut i goginio eich prydau eich hun, gwneud eich siopa bwyd a nwyddau ymolchi eich hun, dysgu sut i dalu biliau, golchi a smwddio eich dillad, ac ati.

Fe'i gelwir yn 'llety â chymorth' oherwydd bod y darparwr Llety â Chymorth yno i siarad â chi os oes rhywbeth yn eich poeni, neu os ydych yn ansicr am unrhyw beth, e.e.: gallant eich helpu i lenwi ffurflenni neu ddangos y ffordd orau i chi goginio rhywbeth os nad ydych yn siŵr.

## Meini Prawf cymhwysedd

Mae'r cynllun yn agored i bobl ifanc, rhwng 16 a 18 oed, sydd wedi "derbyn gofal" gan Wasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin, sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n ddigartref ar hyn o bryd.

Bydd llety â chymorth yn addas i chi os ydych am ddatblygu a hybu eich annibyniaeth.

- Coginio rhai o'ch prydau eich hun.
- Dysgu cyllidebu.
- Gwneud peth o'ch siopa bwyd eich hun.
- Golchi a smwddio eich dillad eich hunain.
- Addysg a Hyfforddiant

## Cytundeb byw gyda'n gilydd

Cyn symud i mewn, bydd cytundeb "byw gyda'ch gilydd" a "rheolau tŷ" yn cael eu llunio rhyngoch chi a'ch darparwr llety â chymorth, a bydd unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'ch gofal a chymorth yn helpu gyda hyn hefyd. Bydd y cytundeb yn nodi'n glir beth sydd angen i chi ei wneud yn ystod y lleoliad i baratoi ar gyfer byw ar eich pen eich hun.

Bydd y cytundeb hefyd yn amlinellu pa dasgau y bydd y darparwr ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'ch gofal a chymorth yn eu cyflawni yn ystod y lleoliad e.e., er enghraifft bydd gweithiwr cymdeithasol/CP yn parhau i gwrdd â chi gan gynnig cymorth a chyngor a bydd hefyd yn nodi eich llety symud ymlaen.

Bydd y cytundeb cyd-fyw hefyd yn rhestru holl reolau'r tŷ: er enghraifft, ni allwch chwarae cerddoriaeth yn uchel ar ôl 11 pm.

## Am ba mor hir y gallaf aros mewn llety â chymorth?

Bydd hyd y lleoliadau yn amrywio o un berson ifanc i'r llall. Bydd yn dibynnu ar:

- Eich anghenion a'ch galluoedd,
- Pa mor fuan rydych chi'n teimlo'n barod,
- Rydych yn cael eich asesu i fod yn barod i symud i'ch lle eich hun.
- Bydd hyd yr amser y byddwch yn ei dreulio yn eich llety hefyd yn dibynnu ar ba bryd y bydd eich llety ar gael.

Ychydig cyn symud i mewn, bydd dyddiad symud allan dros dro yn cael ei bennu. Ym mhob adolygiad, bydd y dyddiad hwn yn cael ei ailystyried i weld a oes angen i chi aros yn hirach neu a allwch symud allan yn gynt na'r disgwyl.

Efallai y gofynnir i chi adael eich llety yn gynt na'r disgwyl os byddwch yn difrodi eiddo'r darparwr yn fwriadol neu'n ymddwyn mewn modd bygythiol tuag ato.

## Sut y telir am fy arhosiad mewn llety â chymorth?

Os ydych o dan 18 oed, bydd Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin yn talu eich rhent. Os ydych chi dros 18 oed ac yn derbyn budd-daliadau, bydd eich rhent yn cael ei dalu gan fudd-dal tai a chyfraniad gennych chi o dâl gwasanaeth wythnosol. Os ydych chi'n gweithio neu os oes gennych chi gynilion mawr ac yn methu â derbyn budd-dal tai, bydd disgwyl i chi dalu cyfraniad tuag at eich rhent o'ch cyflog neu gynilion. Pan fyddwch yn 18 oed, bydd disgwyl i bobl ifanc dalu cyfraniad wythnosol tuag at gost eu bwyd a'u biliau beth bynnag fo'u hincwm e.e., tâl gwasanaeth wythnosol.

## Darparwyr

Mae pob darparwr yn cael ei asesu, ac yn cael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i weld a ydynt yn addas i gynnig llety â chymorth i bobl ifanc. Maent yn cael hyfforddiant i'w helpu i gefnogi pobl ifanc. Bydd pob darparwr, ac unrhyw un dros 18 oed sy'n byw gyda nhw, yn cael eu gwirio gan yr heddlu, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau nad ydyn nhw'n peri unrhyw risgiau i bobl ifanc.

## A fyddaf yn cwrdd â'r darparwyr cyn i mi symud i mewn?

Byddwch. Byddwch yn sicr yn cael cyfle i gwrdd â nhw o leiaf unwaith cyn symud i mewn, bydd y tro cyntaf yn anffurfiol, gan roi cyfle i'r ddau ohonoch weld a allech chi fyw gyda'ch gilydd. Nid ydych chi na'r darparwyr o dan unrhyw rwymedigaeth i gytuno i'r lleoliad fynd yn ei flaen os byddwch, ar ôl y cyfarfod hwn, yn teimlo na allech gyd-dynnu.

## A yw llety â chymorth yn debyg i fod mewn gofal maeth?

Na. Nid yw'r darparwr yno i weithredu fel rhiant, ac ni fydd disgwyl i chi fod yn rhan o'r teulu. Drwy ddewis byw mewn llety â chymorth rydych yn dweud nad oes angen cymaint o gymorth a gofal arnoch ag y gwnaethoch, er enghraifft: os oeddech mewn gofal maeth, yn byw gyda theulu/ffrindiau neu warcheidwaid.

## A fydd gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r darparwr amdanaf i?

Bydd. Bydd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei rhoi i'w helpu i benderfynu a allent gynnig llety, a chymorth i chi, gyda'ch anghenion unigol. Cyn trosglwyddo unrhyw wybodaeth byddwch yn ymwybodol ynghylch pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu.

## Gyda phwy y gallaf siarad os wyf yn ansicr am unrhyw beth?

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am lety â chymorth gan eich gweithiwr cymdeithasol/CP neu unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'ch gofal a chymorth. Fel arall, gallwch gysylltu â Thîm Llety â Chymorth Sir Gaerfyrddin

## Ein Gwerthoedd

Mae pobl ifanc yn unigolion ac mae angen eu trin felly.

Pobl ifanc sy'n dod yn gyntaf - pryd bynnag y bydd oedolion neu sefydliadau yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc, yn gyntaf mae'n rhaid iddyn nhw ofyn beth sydd orau i'r person ifanc.

Mae gan bobl ifanc yr hawl i barch, diogelwch, gofal a chariad.

Mae gan bobl ifanc yr hawl i ryddid rhag camdriniaeth, esgeulustod a chaledi.

Mae gan bobl ifanc hawliau cyfartal - beth bynnag fo'u rhyw, crefydd, anabledd, rhywioldeb, barn neu'u cefndir teuluol.

Mae gan bobl ifanc yr hawl i gael eu clywed – mae'n rhaid i oedolion a sefydliadau wrando ar yr hyn y mae pobl ifanc yn ei feddwl, ei deimlo a'r hyn y mae arnynt ei eisiau, ac ystyried y safbwyntiau hyn.

Mae gan bobl ifanc yr hawl i'w hanghenion sylfaenol gael eu diwallu, gan gynnwys eu hanghenion o ran tai, cynhesrwydd, bwyd, addysg a hamdden.

## Manylion Cyswllt Defnyddiol:

### Voices From Care Cymru

Mae Voices from Care yn cynnal gwasanaeth cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru, gan ddarparu cyngor ac eiriolaeth ar faterion sy'n ymwneud â'u hamgylchiadau a'u hawl a chymorth emosiynol.
Ffôn: 02920 451431
E-bost: Info@vfcc.org.uk

### Childline

Mae Childline yn wasanaeth cwnsela i bob plentyn a pherson ifanc. Gallwch gysylltu â nhw am unrhyw beth. Nid oes unrhyw broblem yn rhy fawr nac yn rhy fach.
Ffôn: 0800 11 11 (am ddim 24 awr)
E-bost: www.childline.org.uk

### Cyngor ar Bopeth

Cyngor ac arweiniad cyffredinol ar lawer o bynciau. Er enghraifft, hawliau pobl ifanc, budd-daliadau, tai, a llawer mwy
www.citizensadvice.org.uk
Cymorth Dyletswydd y Tu Allan i Oriau: Person(au) ar ddyletswydd y tu allan i oriau - 0300 333 2222

## Ein Hethos

Ein Pobl Ifanc, Ein Dyfodol, Ein Cymunedau